

## LIC25-66

### BWYD, CYMRU

## CYNHYRCHION A REOLEIDDIR, CYMRU

### CYFLASYNNAU BWYD

Pennu statws awdurdodi: awdurdodi'r defnydd o *2-hydroxy-4-methoxybenzaldehyd* fel sylwedd i roi blas mewn bwyd ac ar fwyd

#### Nodyn egluro

(nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r penderfyniad)

Gwnaed y penderfyniad hwn ar gyfer Cymru gan Weinidogion Cymru yn arfer y pwerau a roddwyd gan Erthygl 7 o Reoliad [\(EC\) Rhif 1331/2008](#) Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu gweithdrefn awdurdodi gyffredin ar gyfer ychwanegion bwyd, ensymau bwyd a chyflasynnau bwyd (EUR 2008/1331).

Mae'n awdurdodi'r defnydd o *2-hydroxy-4-methoxybenzaldehyd* fel sylwedd i roi blas mewn bwyd neu ar fwyd.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad [\(EC\) Rhif 178/2002](#) Senedd Ewrop a'r Cyngor sydd yn gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau mewn materion diogelwch bwyd (EUR 2002/178).

## Penderfyniad

### Cymhwyso a dod i rym

- Mae'r penderfyniad hwn yn berthnasol i Gymru, a daw i rym ar 13eg Hydref 2025.

### Dehongliad

- Mae pob ymadrodd a ddefnyddir yn y penderfyniad hwn sydd hefyd yn cael eu defnyddio yn Rheoliad (EC) Rhif 1331/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn sefydlu gweithdrefn awdurdodi gyffredin ar gyfer ychwanegion bwyd,

ensymau bwyd a chyflasynnau bwyd (EUR 2008/1331) neu Reoliad (EC) Rhif 1334/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyflasynnau a chynhwysion bwyd penodol sydd â phriodweddau blas i'w defnyddio mewn bwydydd ac ar fwydydd (EUR 2008/1334), maen nhw'n rhannu yr un ystyr ag sydd ganddynt yn y Rheoliadau hynny.

**Pennu statws awdurdodi *2-hydroxy-4-methoxybenzaldehyde***

3. Awdurdodwyd y defnydd o sylwedd *2-hydroxy-4-methoxybenzaldehyd* i roi blas mewn bwyd neu ar fwyd yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn yr Atodlen.

Sarah Murphy

Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

6 Hydref 2025

## ATODLEN

Rhif FL <sup>1</sup>	Enw cemegol	Rhif Cofrestrfa y Chemical Abstract Service (CAS)	Rhif Cyd-bwyllgor Arbenigol Ychwanegion Bwyd y Sefydliad Bwyd ac Amaeth/Sefydliad Iechyd y Byd (JECFA)	Mae purdeb y sylwedd sy'n cael ei enwi o leiaf yn 95% pur, oni nodir yn wahanol	Cyfngiadau ar ei Ddefnydd <sup>2</sup>
05.229	<i>2-Hydroxy-4-methoxybenzaldehyde</i>	673-22-3	2277	Wedi'i ynysu o <i>Periploca sepium</i>	Dim

## NODIADAU

1. Mae halwynau amoniwm, sodiwm, potasiwm a chalsiwm yn ogystal â chloridau, carbonadau a sylffadau wedi'u cynnwys gyda'r sylweddau generig, ar yr amod bod ganddynt briodweddau sy'n rhoi blas.
2. Os yw'r cyflasynnau a awdurdodir yn *racemate* (cymysgedd cyfartal o isomerau optegol), bydd awdurdod i ddefnyddio'r ffurflenni R- ac S- hefyd. Os mai dim ond ffurflen R sydd wedi'i hawdurdodi yna dydy ffurflen-S heb ei awdurdodi, ac i'r gwrthwyneb.
3. Mae'r lefelau uchaf yn cyfeirio at y lefelau mewn bwyd neu ar fwyd wrth iddo gael ei farchnata. Mewn rhanddirymiad o'r egwyddor honno, ar gyfer bwydydd sych a/neu fwydydd crynodedig sydd angen cael eu hailgyfansoddi, bydd y lefelau uchaf yn berthnasol i'r bwyd ar ôl ei ailgyfansoddi yn unol â'r cyfarwyddiadau ar y label, gan ystyried y ffactor gwanhau isaf.
4. Caniateir presenoldeb sylwedd blasu:  
(a) mewn bwyd cyfansawdd ar wahân i'r hyn y cyfeirir ato yn yr awdurdodiad ar gyfer y cyflasyn dan sylw, pan ganiateir i'r cyflasyn fod yn un o gynhwysion y bwyd cyfansawdd; (b) mewn bwyd sydd ond yn cael ei ddefnyddio i baratoi bwydydd cyfansawdd arall, ac ar yr amod bod y bwyd cyfansawdd yn cydymffurfio â Rheoliad (EC) Rhif 1334/2008.

<sup>1</sup> (Rhif FL): rhif adnabod unigryw'r sylwedd.

<sup>2</sup> Caniateir y defnydd yn unol ag arferion gweithgynhyrchu da.